# LLAWLYFR
# 2025 - 2026

*'CAMU 'MLAEN GYDA'N GILYDD'*

YSGOL BRO LLIFON

YSGOL BRO LLIFON








'camu 'mlaen gyda'n gilydd'

**2025 - 2026**

# CYNNWYS


CYNNWYS 1
MANYLION YR YSGOL 2
PENNAETH 3
GWYBODAETH GYFFREDINOL 4
STAFF YR YSGOL 5
Y CORFF LLYWODRAETHOL 6
POLISI MYNEDIAD YR YSGOL 7
TEITHIO A PHARCIO • AMSER Y BWS YSGOL • ORIAU YSGOL 7
GWEFAN YSGOL • GWISG YSGOL • ADDYSG GORFFOROL 8
PRESENOLDEB A PHRYDLONDEB • GADAEL TIR YR YSGOL 9
TREFN DIWRNOD 10
CINIO YSGOL • BOCS BWYD 11
BYRBRYD AMSER EGWYL • DŴR • GOFAL BUGEILIOL 11
CYNNAL YMDDYGIAD DA A DISGYBLAETH • DIOGELWCH 12-13
GORUCHWYLIO • TYWYDD GARW • CYFLE CYFARTAL 13
DISGYBLION GYDA ANABLEDDAU 13
ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL 14
POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL 14-15
POLISI IAITH 15
CWRICWLWM YR YSGOL • DATGANIAD CWRICWLWM 16
CWRICWLWM I GYMRU 17
CERDDORIAETH • ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB 18
CYTUNDEB CARTREF YSGOL 19
GWAITH CARTRE • DARLLEN 19
GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL 19
CLYBIAU AR ÔL YSGOL • YMWELIADAU • CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU 19
CYNGOR YSGOL • YSGOL ECO AC YSGOL IACH 20
CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON 20
Y DREFN GWYNO • POLISIAU • CANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT 20
CANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT 20
PRYDERU AM BLENTYN • ˆPLANT MEWN GOFAL 21
DATGANIAD AR YSMYGU • CWN AR DIR YR YSGOL 21
GWYLIAU YSGOL 22
HYSBYSIAD PREIFATRWYDD 23-25


YSGOL BRO LLIFON

'camu 'mlaen gyda'n gilydd'

2025-2026

# LLAWLYFR
# YSGOL BRO LLIFON

‘camu ‘mlaen gyda’n gilydd’

2025 - 2026

***ENW A CHYFEIRIAD YR YSGOL***

**Ysgol Bro Llifon**,
Y Groeslon,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL547DT

Rhif ffôn: 01286831033

E-bost Pennaeth: pennaeth@brollifon.ysgoliongwynedd.cymru

Swyddog Cefnogi Ysgol: swyddfa@brollifon.ysgoliogwynedd.cymru



Gwefan: www.ysgolbrollifon.cymru

# PENNAETH

## *Mrs Swyn Maelor*

***Annwyl riant/warcheidwad***
Croeso i chwi i **Ysgol Bro Llifon**. Yn dilyn sefydlu yr ysgol ym Medi 2015, rydym yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-11 oed ac yn gwasanaethu tair cymuned wledig sef Y Fron, Carmel a'r Groeslon. Mae gennym dîm sy'n cydweithio i bwrpas sef cydweithio i greu ysgol lle bydd plant yn cerdded drwy'i drws yn blant, hapus, diogel a chreadigol yn ôl eu galluoedd unigol.

Mae arwyddair yr ysgol ***'Camu 'mlaen gyda'n gilydd'*** yn crynhoi y weledigaeth o nôd yr ysgol o ddod at ein gilydd fel tim i gydweithio ac i symud ymlaen gyda'n gilydd. Y mae'r ysgol yn ymfalchio yn ei hethos hapus a chefnogol a'r cwlwm cyfeillgarwch cryf sydd yn treiddio trwy'r ysgol. Erbyn hyn mae'n gweledigaeth ym **Mro Llifon** wedi datblygu i gamu ymlaen gyda'n gilydd i ysgogi a ysbrydoli ein disgyblion i fod yn uchelgeisiol, yn barod i fentro, i ddangos parch a moesoldeb ac i dyfu yn unigolion iach.

Wrth wraidd popeth sicrhawn mai llais a lles y plentyn sydd yn y canol ac ystyriwn chwithau, rieni a gwarcheidwaid ein disgyblion yn rhan allweddol o'r tîm ac edrychwn ymlaen i gydweithio a chyd-droedio gyda chwi dros y blynyddoedd nesaf. Trwy gydweithredu hyderwn y bydd cyfnod eich plentyn gyda ni yn un diwyd, diddorol a chofiadwy yn gymdeithasol ac yn addysgol.

Darllenwch ymlaen am ragor o wybodaeth, neu cysylltwch gyda mi os byddwch angen gwybodaeth bellach arnoch.

Yn gywir,
***S. Maelor***
(Pennaeth)

'camu 'mlaen gyda'n gilydd'
2025 - 2026

# GWERTHOEDD YR YSGOL

| **Gwerthoedd** | Ymddygiad |
|---|---|
| **Hapusrwydd, cymdeithasu a ffrindiau da gyda phrofiadau dysgu yn sbarduno ein dysgwyr.** | Mae ethos yr ysgol yn treiddio trwy pob dosbarth, rydym yn gweithio fel un teulu yn yr ysgol ac yn sicrhau fod hapusrwydd yn greiddiol i bopeth . Hyrwyddwn y plant i gymdeithasu a bod yn ffrindiau triw, gan sicrhau eu bod yn gefn i'w gilydd. |
| **Parch, gonestrwydd ac yn barod i helpu eraill** | Rydym yn onest ac agored wrth ein gwaith a pharchwn farn a theimladau pawb. Credwn fod pob disgybl yn cael eu trin yn gyfwerth a'i gilydd ac rydym yn deall fod pawb yn yr ysgol yn unigryw- yn ddysgwyr a theuluoedd, yn staff a rhanddeiliaid. |
| **Iechyd, diogelwch a ffitrwydd** | Rydym yn deall fod cyswllt rhwng gofalu am y corff a'r meddwl. Rydym yn gwrando ac yn gweithredu i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel a bod gan bawb lais sy'n cael ei glywed. Rydym yn dangos empathi, gofal a chonsyrn am les pawb. |
| **Ymdrech a pharodrwydd i wella** | Rydym yn deall fod pawb yn gwneud camgymeriadau ac bod hynny yn gwneud ni'n ddysgwyr gwell. Gyda ymdrech a pharodrwydd i wella rydym yn deall y gallwn lwyddo ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. |
| **Uchelgeisiol, barod am sialens a pheidio bod ofn gwneud camgymeriad** | Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol, yn ddysgwyr a staff, i dorri tir newydd i fentro wrth gael sialens ac i ddysgu o'n llwyddiannau a'n methiannau. |
| **Annibynnol ac yn gallu datrys problemau** | Wrth gydweithio rydym am annog y plant allu ennyn sgiliau gydol oes yn annibynnol gan sicrhau eu bod yn barod i wynebu a datrys problemau yn y byd mawr. |
| **Bod yn greadigol** | Wrth ddenfyddio'r dychymyg a bod yn greadigol gall agor y drws i pob math o ryfeddodau yn y byd o'n cwmpas. Rydym yn annog a rhoi cyfleoedd i blant fod yn greadigol eu meddyliau ymhob agwedd o waith yr ysgol. |
| **Hyderus** | Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol yn ddysgwr a staff i fod yn hyderus a balch o'n hunain, gan annog hunan barch ac i groesawu her a dyfalbarhau i gyrraedd ein nod. |
| **Cymru a'r gymuned** | Rydym yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ymhob rhan o'n gwaith. Rydym yn chwarae rhan llawn ym mywyd ein cymuned ac mae'r gymuned yn chwarae rhan llawn ym mywyd yr ysgol. Rydym yn dathlu a gwarchod ein treftadaeth ac eisiau'r disgyblion ddeall fod ganddynt gyfraniad gwerthfawr i'r gymdeithas. |
| **Amgylchfyd a'r blaned** | Mae gofalu am yr amgylchyfyd lleol a thu hwnt yn sicrhau planed sydd yn gynaliadwy at y dyfodol. Mae dysgu'r disgyblion am y byd naturiol yn hanfodol iddynt ddeall effaith dynol ar gydbwysedd iechyd byd-eang. |

# STAFF YR YSGOL

## 1. Staff Dysgu

| | |
|---|---|
| Mrs Swyn Maelor Owen | Pennaeth |
| Mr Einion Evans | Dirprwy |
| Miss Lowri Idris Jones | Athrawes Blwyddyn 6 |
| Mrs G Jones | Athro Blwyddyn 4 a 5 |
| Mr Aled Einion Evans | Athro Blwyddyn 3 a 4 |
| Mrs Llio Pugh | Athrawes Blwyddyn 1 a 2 |
| Mrs Gwawr Britton | Athrawes Blwyddyn 1 a Derbyn |
| Mrs Sioned Piercy | Athrawes Blwyddyn Meithrin |

## 2. Cymorthyddion

| | |
|---|---|
| Ms Gwenda Toplis | Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen |
| Mrs Ein Vaughan Williams | Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen |
| Mrs Nicola Jones | Cymhorthydd Dysgu |
| Miss Cara Williams | Cymhorthydd Dysgu |
| Miss Rhiannon Jones | Cymhorthydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Mrs Ann Jones | Cymhorthydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |

## 3. Ysgrifenyddes

Mrs Dilys Ann Jones

## 4. Athrawon Cerdd Teithiol

| | |
|---|---|
| Ms Rebecca Bateson | Ffliwt / Clarinet |
| Mr Neil Williams | Gitâr |
| Mr Urien Huws | Pres |

## 5. Staff Ategol

| | |
|---|---|
| Mrs Alwena Roberts | Gofalwraig a Glanhawraig |
| Mrs Bethan Pritchard | Glanhawraig |
| Miss Pauline Williams | Glanhawraig |
| Mrs Gwenda Williams | Cogyddes |
| Mrs Tracy Hornby | Staff Gegin |
| Miss Abigail Hughes | Staff Gegin |
| Mrs Bethan Pritchard | Uwch-oruchwyliwr Canol Dydd |
| Ms Alison Childes | Goruchwyliwr Canol Dydd / Cogyddes Clwb Brecwast |
| Mrs Elin Williams | Goruwchwyliwr Clwb Brecwast |
| Miss Pauline Williams | Goruchwyliwr Clwb Brecwast |
| Mrs Bethan Pritchard | Goruchwyliwr Clwb Brecwast |

# Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mae **Ysgol Bro Llifon** yn ffodus iawn i gael Corff Llywodraethol ymrwymedig a gweithgar. Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol yn ôl y gyfraith, am reolaeth gyffredinol yr ysgol. Diben y corff Llywodraethol yw cynghori, darparu gwybodaeth a chefnogi'r Pennaeth a staff yr ysgol. Bydd y corff llawn yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor a cheir cyfarfodydd rheolaidd o'r is-bwyllgorau i drafod agweddau staffio, cyllid, addysg arbennig, cwricwlwm ac adeiladau.

**Mae llywodraethwyr yn cael eu penodi i gynorthwyo i:-**

1. benderfynu beth sydd yn cael ei ddysgu
2. safoni ymddygiad y plant
3. gyfweld a phenodi staff.
4. benderfynu sut mae gwario'r gyllideb.

**Mae llywodraethwyr yn:-**

1. rieni
2. athrawon
3. cynrychiolwyr cynghorau lleol
4. cynrychiolwyr y gymuned

**Mae rhiant llywodraethwr:-**

1. gyda phlentyn yn yr ysgol.
2. yn cael ei ethol/hethol gan rieni'r ysgol
3. yn gwasanaethu fel bob llywodraethwr arall am gyfnod o 4 blynedd.

Mae rhiant llywodraethwr yn allweddol ar gyfer dod â barn rhieni i'r corff cyfan, ond gallant drafod fel unigolion. Mae ganddynt statws cyfartal a'r hawl i fwrw pleidlais. Byddwch chi fel rhieni yn ethol 3 rhiant llywodraethwr am gyfnod o 4 mlynedd.

## Y LLYWODRAETHWYR

| *Enw* | *Categori Llywodraethwyr* | *Dyddiad Diweddu* |
|---|---|---|
| Cyng Arwyn Herald Roberts | AALl | Medi 2027 |
| Cyng Llio Elenid Owen | AALl | Medi 2027 |
| Claire Burgess | Llywodraethwr Cymuned | |
| Robat Jones | Cymunedol | Hydref 2027 |
| Delyth Jennings | Rhiant | Ionawr 2028 |
| Swyn Angharad | Rhiant | Hydref 2025 |
| Sara Edwards | Rhiant | Hydref 2025 |
| Ceri Wyn Hughes | Rhiant | |
| Einion Evans | Staff Addysgu | Hydref 2025 |
| Ann Jones | Staff Ategol | Hydref 2027 |
| Swyn Maelor | Pennaeth | Rhinwedd ei swydd |

Os ydych angen trafod unrhyw fater gyda'r Corff Llywodraethol, yna cysylltwch â'r Cadeirydd neu'r Clerc.

**Cadeirydd:** Sara Edwards
e-bost: kaspereksara@yahoo.co.uk.uk

**Clerc:** Eleri Ann Jones
e-bost: eleriannjones@hotmail.co.uk

'camu 'mlaen gyda'n gilydd' 2025-2026

# POLISI MYNEDIAD YR YSGOL

Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol â Pholisi Mynediad yr Awdurdod. Yn unol â'r polisi hwnnw, derbynnir disgyblion Meithrin yn rhan amser *(prynhawn)* i'r ysgol yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Derbynnir disgyblion oed Derbyn i'r ysgol yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

Er mwyn gwenud cais am le yn yr ysgol rhaid felly cyflwyno ceisiadau i Gyngor Gwynedd drwy'r ysgol cyn Chwefror y 1af bob blwyddyn. Bydd y ffurflenni pwrpasol ar gael yn yr ysgol neu gan y Swyddfa Addysg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd, sef: **www.gwynedd.gov.uk.**

Yn yr un modd, dilynir Polisi Mynediad yr Awdurdod i drosgwlyddo disgyblion hŷn o un ysgol i'r llall. Trosglwyddir y disgyblion 11oed i Ysgol Dyffryn Nantlle.
Ceir cysylltiadau cryf gyda'r Ysgol Uwchradd a chaiff y plant gyfle i ymweld â'r ysgol cyn trosglwyddo.

Mae'n arferol i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 a hynny heb eu bod yn medru'r Gymraeg i fynychu'r Uned Iaith ym Maesincla am dymor.

# TEITHIO A PHARCIO

Bydd llawer o blant Y Groeslon yn cerdded i'r ysgol a bydd gofyn iddynt ddefnyddio'r llwybr sy'n arwain i'r buarth ganolog. I'r plant hynny sy'n teithio mewn car ac angen eu tywys at giat y buarth gofynnir i'r rhieni barcio yn y maes parcio pwrpasol. Serch hynny mae safle man gollwng tu allan i'r brif fynedfa ond pwysleisir mai man gollwng yn unig ydyw hwn ac ni chaniateir parcio. Ceir man parcio ar gyfer y bws ysgol tu allan i'r prif fynedfa hefyd. Dylid gyrru'n ofalus ac yn bwyllog ger safle'r ysgol bob amser. Yr un fydd y trefniant ar gyfer diwedd y dydd.

# AMSER Y BWS YSGOL

***FRON - CARMEL - YSGOL BRO LLIFON* 482 - *Carmel Travel 01286 881472***

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fron | 0815 | **Ysgol Bro Llifon** | 1510 |
| Gardd Y Coleg | 0820 | Maes Hyfryd | 1515 |
| Capel Pisgah | 0822 | Adwy'r Mynydd | 1517 |
| Adwy'r Mynydd | 0825 | Gardd Y Coleg | 1520 |
| Maes Hyfryd | 0827 | Capel Pisgah | 1523 |
| **Ysgol Bro Llifon** | 0830 | Fron | 1530 |

# ORIAU YSGOL

| | |
|---|---|
| Bore: | 9.00-12.00 |
| Amser chwarae: | 10.30-10.45 *Dysgu Sylfaen* 10.45-11.00 *CA2* |
| Amser Cinio | 12.00-1.00 *(12.15-1.00 - CA2)* |
| Prynhawn: | 1.00-3.00<br>*(Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2)* |
| Amser chwarae | 2.15-2.30 Cyfnod Sylfaen yn unig |
| Ysgol yn cau | 3.00 i bawb |

Bydd gofal am y plant yn dechrau 10 munud ar ddechrau'r dydd am 8.50y.b ac ar ddiwedd y dydd rhwng 3.00 - 3.10 o'r gloch. Dosberthir manylion ynglyn â gweithgareddau a gwyliau i'r rhieni ar ddechrau pob tymor.

# GWEFAN YSGOL

Dyma fan i chi gyrchu gwybodaeth ar manylion diweddaraf am drefniadau a digwyddiadau'r ysgol. Mwynhewch bori drwy'r wefan:-

**www.ysgolbrollifon.cymru**

**Trefn o gysylltu**
Rydym yn defnyddio system **'Teachers2Parents'** i anfon e-byst a llythrau ac negeseuon am yr ysgol at rieni trwy negeseuon testun. Mae'r system yn galluogi'r ysgol i:

- gysylltu â rhieni ar fyr rybudd,
- fod yn rhan o ymgyrch Ysgol Werdd-lleihau'r llwyth papur,
- ganmol plentyn.
  *(Cofiwch ein hysbysu'n syth o newid cyfeiriad neu rif ffon, yn ogystal â rhifau cyswllt mewn argyfwng.)*
- Anfonir llythyr personol neu alwad ffôn os ydym am gael gair preifat gyda chi.

# GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol. Anogir y disgyblion i wisgo crys polo glas tywyll gyda chrys chwys coch â logo yr ysgol arnynt a throwsus neu sgert lliw llwyd ac esgidiau tywyll. Yn yr Haf caniateir gwisgo trowsus byr llwyd neu ffrog goch gingham.

Disgwylir i'r plant fod wedi eu gwisgo'n lân a thrwsiadus bob amser.
Caiff disgyblion eu hannog i beidio â gwisgo trowsusau chwaraeon na jîns.
Ni chaniateir gwisgo clustdlysau yn yr ysgol ac eithrio 'styds'.

Dylid labelu enw eich plentyn ar bob dilledyn os gwelwch yn dda.

Gellir archebu'r wisg ysgol ar wefan 'Brodwaith' a gwefan neu siop wisg ysgol 'Orchid Fashion' yng Nghaernarfon.

**Addysg Gorfforol**

Shorts du a Chrys-t gwyn.

# PRESENOLDEB A PHRYDLONDEB

**i)** Yn **Ysgol Bro Llifon**, rydym yn ystyried presenoldeb a phrydlondeb yn hynod bwysig iawn er mwyn i'ch plentyn/plant fanteisio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. Mae'n bwysig bod y plant yma'n rheolaidd cyn 9.00 er mwyn cychwyn ar ddiwrnod cyffrous arall yn brydlon.

**ii)** Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd wedi bod yn bwysig erioed. Heb hyn bydd ymdrechion yr athrawon a'r ysgol yn ofer.

**iii)** Mae'n ddyletswydd cyfreithiol ar rieni i anfon eu plant i'r ysgol yn rheolaidd. Mae rhieni sy'n methu â chyflawni'r dyletswyddau hyn yn wynebu cael eu herlyn.

**iv)** Mae'n gyfrifoldeb hefyd ar rieni i sicrhau fod eu plant yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd, yn daclus, ac mewn cyflwr i'w dysgu.

**v)** Cyfrifoldeb y rheini yw hysbysu'r ysgol am absenoldeb eu plentyn cyn gynted â phosib' ac i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach pe bai ei angen. Pan fo hyn yn digwydd, a fuasech cystal â:

- ffonio'r ysgol cyn 9.15yb ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb yn amlinellu'r rhesymau am absenoldeb y plentyn. Gellir gadael neges ar y peiriant ateb hefyd neu ysgrifennu nodyn byr yn esbonio'r absenoldeb os gwelwch yn dda
- Os nad yw rhieni yn hysbysu'r ysgol, byddwn yn ffonio'r rheni er mwyn derbyn eglurhad. Rhaid i'r ysgol dderbyn eglurhad ymhob achos.

**vi)** Bydd Swyddog Lles y Sir yn hysbysu'r Awdurdod Addysg pan fydd presenoldeb afreolaidd disgybl yn achosi pryder ac yn gwneud ymholiadau pellach.

**vii)** Yr ysgol yn unig, yng ngyd-destun y gyfraith, a all gymeradwyo absenoldebau. Gosodir absenoldebau mewn dau gategori - AWDURDODEDIG ac ANAWDURDODEDIG. Ni ellir caniatau absenoldeb heb i chwi gysylltu â'r ysgol.
Mae'r canlynol yn cael eu hystyried fel ABSENOLDEBAU AWDURDODEDIG - gwaeledd, apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol, a mynychu gŵyl grefyddol lle mae rhieni'r plant yn aelodau.
Mae'r canlynol yn enhreifftiau o ABSENOLDEB ANAWDURDODEIG - siopa yn ystod oriau ysgol, cyfrifoldebau cartref, aros adref i warchod, gwyliau estynedig yn ystod tymor ysgol.

- Dylai'r rhieni sy'n trefnu gwyliau ar wahân i wyliau'r ysgol ystyried calendr yr ysgol, ac oblygiadau hyn i'r plentyn. Ceir ffurflen ganiatad ar wefan yr ysgol . Ni chaniateir mwy na 10 diwrnod o wyliau ymhob blwyddyn ysgol.
- Mae'r cofrestr yn cael ei chau am 9.15 y bore ac am 1.15 y pnawn.
- Os yw disgybl yn dymuno cael ei esgusodi o wersi addysg gorfforol/gemau/nofio am resymau meddygol, rhaid iddi/o gael nodyn gan ei riant *(am gyfnod byr)* neu dystysgrif feddygol *(am gyfnod estynedig neu barhaol)*.
- Os na fyddech wedi hysbysu'r ysgol am unrhyw absenoldeb cyn 9.30 yna yna bydd yr ysgrifenyddes yn cysylltu â chwi.
- Mae'r ysgol yn dilyn Canllawiau Cenedlaethol ar reoli heintiau.

## GADAEL TIR YR YSGOL

Ni chaiff unrhyw ddisgybl fynd oddi ar dir yr ysgol yn ystod oriau ysgol, oni chaiff ganiatâd swyddogol. Dylai rhieni wneud cais am ganiatâd o'r fath mewn llythyr at y pennaeth.

# TREFN DIWRNOD

## CYRRAEDD YR YSGOL

Mae'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am y plant yn swyddogol am 8.50 y.b. ac ni ddylai plant gyrraedd yr ysgol cyn hynny oni bai eu bod yn mynychu'r Clwb Brecwast.

Disgwylir i'r plant ddefnyddio'r giât sy'n arwain at fuarth yr ysgol.

## CLWB BRECWAST

Cynhelir Clwb Gofal Cyn - Ysgol sy'n cychwyn 8.00-8.30yb a Chlwb Brecwast *(di-dal)* rhwng 8.30-8.50 yn **Ysgol Bro Llifon**.
Mae'n hanfodol i gofrestru ar lein os ydych plentyn yn mynychu y Clwb Gofal Cyn-Ysgol a'r Clwb brecwast (di-dal).
Mae'n rhaid talu am y Clwb Gofal Cyn - Ysgol ar lein: £1 y dydd.
Rhaid creu cyfrif ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru

## GADAEL YR YSGOL

Dylai'r rhieni ddod i gyfarfod y plant at giât yr ysgol a bydd yr athrawon yn eu danfon yn ddiogel. Os digwydd i riant fod yn hwyr yn dod i nôl plentyn, bydd yr athrawes yn mynd ag ef/hi yn ôl yn ddiogel i'r dosbarth. Gofynnir i rieni sy'n hwyr ddod i mewn i'w nôl drwy brif fynedfa'r ysgol.

Yn naturiol, nid oes hawl gan blentyn o'r Dysgu Sylfaen i adael tir yr ysgol heb ganiatâd a heb oedolyn i'w gyrchu. Cofiwch roi gwybodaeth i ni yn yr ysgol, yn ogystal ag i'ch plentyn, os bydd unrhyw newid yn y trefniadau arferol ar gyfer codi plant o'r ysgol.

Os yw eich  plentyn yn yr adran Iau mi fyddem yn gofyn i chwi, fel rhieni, lenwi ffurflen ganiatâd i blentyn gerdded adref.

Bydd y bws yn gadael am bentref Carmel a'r Fron am 3.10 ac yn gollwng y plant yn y llochesi bws priodol *(gweler 'Teithio a Pharcio' am yr amserlen.)* Ni ellir gadael i blentyn fynd o'r ysgol yn gynnar oni bai fod cais ysgrifenedig yn cael ei dderbyn.

# CINIO YSGOL

Mae holl blant Cynradd Gwynedd yn cael cinio ysgol di-dal. Anogir pob disgybl i gymryd prydau ysgol ac mae'r bwyd a ddarperir yn arlwy cytbwys ac iach.
Os oes gan eich plentyn alegredd at fathau gwahanol o fwyd dylid cynnwys y wybodaeth ar ffurflen fynediad eich plentyn neu drwy gysylltu â'r Pennaeth.

Mae'r plant i gyd yn bwyta o dan arolygaeth yn y neuadd.

# BOCS BWYD

Er mwyn hyrwyddo bwyta'n iach a gofal am y dannedd, gofynnwn yn garedig i chi gefnogi'r ymgyrch 'Ysgol Iach' wrth baratoi bocs bwyd eich plentyn. Awgrymir dau beth melys yn unig e.e. iogwrt a bisged/teisen a pheidio rhoi melysion, siocled na diodydd pefriog, dŵr yn unig os gwelwch yn dda.

# BYRBRYD AMSER EGWYL

Ffrwythau yn unig a ganiateir yn ystod amser egwyl.

# DŴR

Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd yfed digon o ddŵr yn ystod y dydd. Anogir y plant ddod â photel fach blastig o ddŵr plaen heb flas i'r ysgol yn ddyddiol.
Ni chaniateir diodydd blâs ffrwyth. Byddant yn cadw eu potel wrthlaw bob amser tra byddent yn gweithio a lleolir ffynnon ddŵr yn y coridor i'r plant ail-lenwi eu poteli.

# GOFAL BUGEILIOL

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro/athrawes arbennig, ond ceisia'r staff cyfan ymorol am lês yr holl ddisgyblion. Mae **Ysgol Bro Llifon** yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig, yn gyfrifol ac i ymddwyn yn barchus a chwrtais bob amser.

# CYNNAL YMDDYGIAD DA A DISGYBLAETH

Disgwylir i bob disgybl gyfrannu at greu cymdeithas wâr yn yr ysgol drwy gadw at reolau ymddygiad yr ysgol sef:

**i)** dangos parch at bawb a phopeth.
**ii)** bod yn barod a chyfrifol.
**iii)** cadw'n ddiogel.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da oherwydd bydd hyn yn hyrwyddo ethos o barch, hapusrwydd diogelwch a chydweithrediad. Mae'r drefn disgyblu yn seiliedig ar bolisi o ganmol a chlodfori'r ymddygiad a ddymunir. Mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion cynnal ymddygiad da Webster Stratton a Pivotal. Gwneir hyn trwy ganmol, llongyfarch plant, dathlu llwyddiant, rhannu tystysgrifau ac ar ddangos gwaith da.

Bydd unrhyw gosb a weinyddir yn rhesymol a chymedrol yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Addysg.

Mae gan yr ysgol bolisi ymddygiad a disgyblaeth.

Mae'r drefn disgyblaeth yn seiliedig ar bolisi lle mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am ymddygiad ei ddosbarth ei hun, ond os oes angen, gellir cyfeirio disgybl i sylw'r Dirprwy neu'r Pennaeth.

Pan fo plentyn yn parhau i gam ymddwyn, gan amharu ar rediad naturiol yr ysgol, rydym yn ystyried ac yn gweithrdu'r gosb eithaf o wahardd plentyn, yn ôl canllawiau'r A.A.Ll

Gofynnir i ddisgyblion beidio â dod â phethau personol i'r ysgol e.e., teganau, offer technolegol a gemau(jewellery).

**Polisi Gwrth-fwlio**
Mae'r ysgol yn ceisio dysgu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng ffraeo dydd i ddydd rhwng ffrindiau a chyfoedion, a bwlio. Mae bwlio yn weithred fwriadol a bygythiol sy'n gamddefnydd o bwer. Ni ddioddefir unrhyw fath o fwlio yn yr ysgol. Os bydd bwlio'n digwydd yna delir â'r mater yn unol â'r canllawiau y Polisi Gwrth-Fwlio.

Mae gan yr ysgol Bolisi Grym Rhesymol sydd i'w weithredu gan staff dan amgylchiadau arbennig er mwyn cynnal lefel dderbyniol o ddiogelwch.

# DIOGELWCH

Mae'r ysgol yn arolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer y disgyblion a staff yn gyson.

Cymerir pob gofal posib am ddiogelwch y plant tra byddant yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni yn syth. Pe byddai angen cysylltir â'r gwasanaethau brys i gludo'r plentyn i Ysbyty Gwynedd. Byddwn yn cofnodi damweiniau ac yn gyrru gwybodaeth adref. Anogir rhieni ofyn i'w meddyg teulu a ydyw'n bosibl amseru'r dognau o feddyginiaeth i'w cymryd tu allan i oriau arferol ysgol.

Lle bynnag y bo modd, dylai rhieni disgyblion sydd angen meddyginiaeth yn ystod oriau ysgol fynychu'r ysgol i ddarparu'r feddyginiaeth i'w plant. Dim ond mewn achosion arbennig yn unig y rhoddir moddion - a hynny ar ôl derbyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig (ffurflen yn yr ysgol) gan riant yn unol â Pholisi'r ysgol. Os oes gan eich plentyn unrhyw anghenion meddygol, dylid cwblhau iechyd unigol ar ei gyfer. Bydd yr ysgol yn galw ar Nyrs ysgol i greu cynllun meddygol yn ôl yr angen.

Rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch wrth y brif fynedfa cyn cael mynediad i weddill yr ysgol a bydd disgwyl iddynt gofnodi i mewn ac allan o'r adeilad a gwisgo bathodyn adnabod. Mae gan yr ysgol system larwm lladron sydd wedi ei gysylltu â'r orsaf heddlu, a cheir 'ymarferion tân' yn dymhorol. Y man ymgynnull tân yw'r iard fawr.

Pe bai raid cau'r ysgol mewn argyfwng byddai'r staff yn gwneud eu gorau i gysylltu â chi yn uniongyrchol. Mae'n hollbwysig felly eich bod yn rhoi gwybod i'r ysgol pe bai eich manylion cyswllt megis ffôn yn newid.

Erfynnir am gydweithrediad pawb er diogelwch y plant

# GORUCHWYLIO

Goruchwylir y plant gan yr athrawon a'r cymorthyddion cyn dechrau'r ysgol (8.50-9.00) ar ddiwedd prynhawn (3.10) ac yn ystod egwyl y bore a'r prynhawn. Yn ystod amser cinio goruchwylir plant gan ddwy oruchwylwraig a chymhorthyddion. Yn ystod tywydd garw, byddent yn goruchwylio yn eu dosbarthiadau.

# TYWYDD GARW

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Bydd yr ysgol yn eich hysbysu drwy wefan y Cyngor os fydd yr ysgol yn gorfod cau. Os mewn amheuaeth ffoniwch yr ysgol. Weithiau, bydd angen anfon y plant gartref yn gynnar ond byddwn yn ffonio'r cartref yn gyntaf neu gysylltu â'r system nodyn bodyn.

# CYFLE CYFARTAL

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r ysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng aelodau gwahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol ac i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil neu ryw.

Mae gan yr ysgol ystod o bolisïau sy'n ymwneud â hyrwyddo cynhwysiad gwahanol ddisgyblion. Gellir cael copi o unrhyw un o'r polisïau hyn drwy gysylltu â'r Pennaeth.

DISGYBLION GYDAG ANABLEDDAU
Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni sydd ag anableddau. Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni sydd ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Cysyllter â'r Pennaeth am ragor o fanylion.

Sicrheir cefnogaeth sensitif, fugeiliol ac academaidd gydradd i ddisgyblion ag anableddau o fewn fframwaith arferol yr ysgol.

'camu 'mlaen gyda'n gilydd'
2025-2026

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Byddwn yn dilyn y drefn o gofnodi enwau'r plant sydd angen sylw ychwanegol a pharatoi cynlluniau addysg unigol iddynt. Ceir cyswllt cyson â'r asiantaethau sy'n ymwneud â phlant.

Adolygwyd y polisi ADY.

1. Darparwyd Addysg Arbennig i'r disgyblion hynny oedd angen sylw ychwanegol gan ddilyn patrwm rhestr argymhellion yr Awdurdod Addysg.
2. Trefnwyd cofrestr addysg arbennig yr ysgol a sefydlwyd taflenni a threfn o sgrinio, asesu anghenion y disgyblion, llunio cynlluniau addysg unigol (IDP) a phriodol ar eu cyfer a monitro ac arolygu cynnydd yn unol a'r rhestr argymhellion.
3. Fe benodwyd Llywodraethwyr gyda chyfrifoldeb am ADY i oruchwylio Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol, **Delyth Jennings**.
   **Mr Einion Evans** sy'n gyfrifol ar ran yr ysgol.
4. Bu Cymhorthyddion Dosbarth ADY yn gweithio â phlant unigol a grwpiau bychan am gyfnodau'n wythnosol.
5. Bydd sawl ymweliad gan Asiantaethau Allanol i orchulwyio datblygiad y plant.

## POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**Anghenion Addysg Arbennig - Cynorthwyo'r Plentyn**

1. Os yw'r athro/athrawes o'r farn bod gan blentyn broblemau, neu yn alluog iawn, yna bydd yn canfod ffyrdd o gynorthwyo'r plentyn. Gall y bydd yr athro/athrawes yn cael sgwrs gyda'r rhieni.
2. Os yw'r athro/athrawes o'r farn nad yw'r plentyn yn gwneud cynnydd, yna bydd yn trafod y problemau gyda'r Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol - y sawl sy'n sicrhau bod y cynllun yn gweithio'n esmwyth yn yr ysgol. Yn yr ysgol hon, y cyd-gysylltydd yw'r Mr Einion Evans. Yn dilyn trafodaethau gyda'r rhiant, gall y bydd y plentyn yn cael ei osod ar restr arbennig (sef cofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol), sef Gweithredu gan yr Ysgol. Mae'r ysgol a'r rhieni yn llunio cynllun gwaith unigol arbennig ar gyfer y plentyn, a elwir yn CDU *(Cynllun Datblygu Unigol)*. Gallai hyn olygu rhoi sylw ychwanegol i'r plentyn. Mae hwn yn gam cadarnhaol wrth i'r ysgol a'r rhieni gydweithio i gynorthwyo'r plentyn. Edrychir ar faint o gynnydd a wnaed ar ôl cyfnod. Os bydd y problemau'n lleihau, bydd enw'r plentyn yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr.
3. Os deil problemau, gallai'r rhieni a'r ysgol benderfynu rhoi'r plentyn ar y cam nesaf: trwy CDU fforwm. Golyga hyn bod yr ysgol yn llunio cais i'r Awdurdod Addysg yn gofyn Cyngor ynghylch sut i gynorthwyo'r plentyn. Fel arfer, mae Athro/Athrawes Ymgynghorol Dysgu Ychwanegol neu Seicolegydd Addysgol yn gweld y plentyn. Gallai hyn olygu rhoi sylw ychwanegol i'r plentyn. Yn y CDU fforwm, mae'r ysgol a'r rhieni eto'n llunio Cynllun Datblygu Unigol arbennig ar gyfer y plentyn. Edrychir ar gynnydd ar ôl cyfnod. Os yw'r plentyn yn goresgyn y problemau, yna gellid gosod y plentyn yn ôl ar Gweithredu gan yr Ysgol neu hyd yn oed ei dynnu oddi ar y rhestr.
4. Efallai y bydd yr Awdurdod Addysg yn penderfynu darparu cymorth ychwanegol ar gyfer y plentyn tra mae ar Gweithredu gan Fforwm. Caiff y ddarpariaeth hon ei hadolygu'n gyson.
5. Os yw pawb sy'n ynghlwm yn teimlo bod angen cynnal asesiad manwl iawn o anawsterau'r plentyn, yna gellid penderfynu symud at CDU Awdurdodol. Ar y cam hwn, mae gan yr Awdurudod Addysg ddull manwl iawn o gasglu gwybodaeth ynghylch y plentyn.

**6.** Os yw'r rhieni yn cytuno i gynllun yr Awdurdod, yna rhoddir y plentyn ar CDU Awdurdodol. Trwy'r holl gamau hyn, gwahoddir y rhieni i drafod gyda'r ysgol gan ddarparu copiau o gynlluniau datblygu unigol ar eu cyfer. Y nod bob amser yw bod yr ysgol a'r rhieni yn cydweithio i gynorthwyo'r plentyn. Gellir cael golwg ar bolisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol, yn yr ysgol drwy ofyn i'r Pennaeth. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch i'r Pennaeth.

# POLISI IAITH

**Amcanion Cyffredinol**

- Meithrin agwedd gadarnhaol tuag at y ddwy iaith.
- Datblygu gallu ieithyddol yn y ddwy iaith.
- Meithrin diddordeb mewn ffurfiau amrywiol o lenyddiaeth.
- Creu ymwybyddiaeth o werth yr etifeddiaeth Gymraeg.

Prif amcanion gweithgareddau'r Dysgu Sylfaen fydd rhoi sylfaen gadarn Gymraeg i bob plentyn. Gan mai yn y cyfnod cynnar hwn y mae plentyn mwyaf parod i amsugno iaith mae'n bwysig creu amrywiaeth o brofiadau symbylus iddynt. Byddwn yn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg i'r plant uniaith Saesneg cyn gynted ag y byddent yn cychwyn yn yr ysgol. Ym mlwyddyn 1 a 2 adeiladir ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg, er mwyn galluogi'r plentyn i gyrraedd y nôd o ddwyieithrwydd llawn maes o law. Byddwn yn cyflwyno Saesneg pan fydd y plant yn barod fel arfer ym mlwyddyn 1 a 2. Yng Nghyfnod Allweddol 2 bydd cadarnhâd a datblygiad pellach o Gymraeg a Saesneg pob plentyn, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd a hyderus yn y ddwy iaith pan fydd yn trosglwyddo i'r ysgol Uwchradd.

**Hwyrddyfodiaid**

Trefnir i hwyrddyfodiaid fynychu'r Ganolfan Iaith yn Ysgol Maesincla ble mae cyfleusterau ar gyfer cyflwyno cyrsiau dwys arbenigol i ddysgwyr. Bydd y dysgwyr yn trosglwyddo yn ôl i'r ysgol gynradd ymhen tymor.


**Siarter Iaith a'r Cwricwlwm Cymreig**

Mae'r ysgol yn hybu Cwricwlwm Cymreig gan sicrhau fod y plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Fel ysgol rydym yn dilyn canllawiau 'Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd' ac yn dilyn weithredu'r cynllun sydd yn arwain at wobrau efydd, arian ac aur. O ganlyniad disgwylir mai'r Gymraeg a ddefnyddir i sgwrsio'n anffurfiol yn y dosbarth ac ar y buarth. Gellir gweld copi o'r Polisïau Iaith drwy gysylltu gyda'r Pennaeth.

# CWRICWLWM Y YSGOL
# DATGANIAD CWRICWLWM
# BRO LLIFON

## CWRICWLWM I GYMRU

### 4 PWRPAS Y CWRICWLWM




### 3 AGWEDD TRAWSGWRICWLAIDD

| |
|---|
| LLYTHRENNEDD |
| RHIFEDD |
| CYMHWYSEDD DIGIDOL |

### 6 MAES DYSGU

| |
|---|
| MATHAMATEG A RHIFEDD |
| IAITH • LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU |
| GWYDDONIAETH A THECHNOLEG |
| IECHYD A LLES |
| CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL |
| DYNIAETHAU |

‘camu ‘mlaen gyda’n gilydd’

2025 - 2026

# CWRICWLWM I GYMRU

**Cwricwlwm ac Asesu**
Mae pedwar diben wrth wraidd cwricwlwm **Ysgol Bro Llifon**;
Mae'r rhain yn rhoi'r cyfle i bob disgybl a pherson ifanc ddatblygu i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd;
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae'r holl athrawon a'r cynorthwy-wyr i'w canmol am safon y ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion **Bro Llifon**.
Gweithia pob un yn gydwybodol er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Ein nod yw cynnig addysg a gofal o'r safon uchaf mewn awyrgylch hapus, caredig, gweithgar a diogel fel bod pob disgybl, beth bynnag fo'i allu, yn cyrraedd ei lawn botensial. Rhoddir pwyslais ar ddysgu medrau sylfaenol llythrennedd, rhifedd a TGCh a phwysleisir pwysigrwydd eu gwneud yn berthnasol ac yn ystyrlon i'r plentyn. Mae'n bwysig gwneud y plentyn yn ymwybodol o'i amgylchfyd, ei gymuned, ei wlad a'i fyd. Trwy ddefnyddio dulliau dysgu sydd wedi eu seilio ar themâu, mae strwythur ein cwricwlwm yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cyfrannu mewn ffordd bendant a phenodol at ddatblygu pedwar diben y cwricwlwm. Gyda'i gilydd, maent yn diffinio ehangder ein cwricwlwm.
Mae'r profiadau addysgiadol rydym yn eu cynnig yn rhan annatod o'n cwricwlwm, sy'n ehangu gorwelion ein disgyblion, yn symbylu eu dychymyg ac yn hybu mwynhad wrth ddysgu.

**Y chwe maes dysgu a phrofiad yw:**

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Mathemateg a rhifedd

Gwyddoniaeth a thechnoleg *(yn cynnwys cyfrifiadureg)*

Celfyddydau mynegiannol

Iechyd a lles

Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol)

**Elfennau Cwricwlwm Gorfodol :**

- addysg cydberthynas a rhywioldeb
- crefydd, gwerthoedd a moeseg
- Cymraeg
- Saesneg - o 7 oed. Gall penaethiaid a darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir arfer eu disgresiwn wrth benderfynu a fyddan nhw'n cyflwyno Saesneg i ddysgwyr rhwng 3 a 7 oed, ac i ba raddau. Diben hyn yw hwyluso'r broses o drochi dysgwyr y blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg.

**Camau Cynnydd**
Mae camau cynnydd o fewn y cwriwcwlm sef:

Cam Cynnydd 1 - Meithrin a Derbyn

Cam Cynnydd 2 - Blynyddoedd 1, 2 a 3

Cam Cynnydd 3 - Blynyddoedd 4, 5 a 6

# CERDDORIAETH

Cynigiwn wersi offerynnol mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ysgolion William Mathias.

Nod y bartneriaeth yw galluogi disgyblion i dderbyn hyfforddiant gan diwtoriaid arbenigol yn ystod oriau dysgu.

Darperir 30 gwers o fewn y flwyddyn ysgol. Bydd y tiwtoriaid yn cynorthwyo gydag ymarfer cyngherddau, gwaith arholiadau a chystadlaethau'r Urdd.
Ar hyn o bryd cynigir gwersi offerynnol ffliwt, clarinet a gitâr i ddisgyblion blynyddoedd 3,4,5 a 6.

Bu lle amlwg i waith lleisiol ym mywyd disgyblion **Ysgol Bro Llifon** a bydd cyfle iddynt gystadlu yn Eisteddfodau yr Urdd.

Cynhelir Cyngherddau Nadolig gan yr ysgol yn flynyddol, lle caiff pob disgybl y cyfle i ymddangos ar y llwyfan.

# ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB

Mae gan addysg cydberthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol wrth eu cefnogi i gyflawni'r pedwar diben fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan. Mae helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.
Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau sy'n gwbl gynhwysol, gan adlewyrchu amrywiaeth a hyrwyddo parch.

Mae'r Cod ACRh, Llywodraeth Cymru 2022 yn cynnwys y gofynion mandadol. Mae'r addysgu a dysgu o fewn ein rhaglen ACRh ysgol gyfan yn cwmpasu'r elfennau mandadol a amlinellir o fewn y Cod.

Mae'r ysgol felly wedi cynllunio a datblygu rhaglen addysgu a dysgu ACRh ysgol gyfan gynhwysfawr, cynhwysol, addas i ddatblygiad sydd yn cydymffurfio gyda'r Cod. Mae'r polisi hwn yn manylu ein dull ysgol gyfan ACRh.

Mae ein hysgol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd i ddeall sut mae cydberthnasau a rhywioldeb yn siapio ein bywyd a bywydau eraill. Bydd ein dysgwyr yn cael eu harfogi a'u grymuso i ofyn am gefnogaeth ar faterion sy'n gysylltiedig ag ACRh ac i eirioli ar ran eu hunain ac eraill.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ACRh wedi ei osod yng ngwerthoedd, hawliau a fframwaith moesol yr ysgol e.e. wrth ddangos parch i'r holl ddysgwyr, staff a'r gymuned ehangach, wrth ddathlu gwahaniaethau, adeiladu perthnasoedd iach a cynhwysol o amrywiaeth rhywiol.

# CYTUNDEB CARTREF YSGOL

Mae gan yr ysgol 'Gytundeb Cartref / ysgol' sy'n nodi yr hyn a ddisgwylir gan yr ysgol o safbwynt ymrwymiad rhieni / gwarcheidwaid a disgyblion i gefnogi'r ysgol ynghyd ag ymrwymiad yr ysgol i gydweithio a darparu'r gwasanaeth gorau i rieni / gwarcheidwaid a disgyblion.

# GWAITH CARTREF

**Dysgy Sylfaen**

- Gosodir Gwaith cartref yn achlysurol boed yn dasgau iaith a mathemateg i gefnogi gwaith y dosbarth.

**Cyfnod Allweddol 2**

Gosodir gwaith cartref pob pythefnos.
Gall y gwaith cartref fod yn dasg:

- iaith / sillafu
- mathemateg
- a phob tymor gosodir unai prosiect, tasg sgwrs ddifyr neu waith celf creadigol.

Llyfrau darllen unigol yn cael eu rhoi yn wythnosol i bawb. Gofynnwn i chi gofnodi sylwadau yn wythnosol yn llyfr cofnodi darllen eich plentyn. Bydd y llyfrau yn cael eu cyfnewid ar ddydd Gwener.

# GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Mae gan yr ysgol raglen o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys cystadlu mewn eisteddfodau, perfformio mewn cyngherddau a rhaglen chwaraeon.

## YMWELIADAU

Trefnir ymweliadau yn ymwneud â'r themâu tymhorol. Bydd yr athrawon dosbarth yn ymchwilio i ymwelidadau pwrpasol fydd yn cyfoethogi dysgu ac addysg effeithiol. Gwahoddir siaradwyr/wragedd gwadd i annerch y plant yn yr ysgol.

## CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU

Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg rad ac am ddim ac felly hefyd yn **Ysgol Bro Llifon**. Rhagwelir y trefnir rhai teithiau yn ystod oriau ysgol na fydd yn rhan hanfodol o'r gwaith cwrs, ond a fydd yn brofiad llesol i'r disgyblion. Yn ôl y Ddeddf, er nad oes gan ysgol hawl i godi tâl am deithiau o'r fath, mae ganddi hawl i:

- ofyn am gyfraniad gwirfoddol tuag at gost o drefnu'r fath daith
- ofyn i asiant allanol i drefnu'r daith

Heb gyfraniadau tebyg, mae'n bosibl na fydd y gweithgaredd yn cael ei gynnal. Mae hawl gan y Pennaeth i ddileu gweithgaredd a drefnwyd os yw cyfraniadau isel yn golygu colled sylweddol i'r ysgol.

Awdurdodir y Pennaeth i ofyn am daliadau ar gyfer y canlynol:

- gwersi cerdd unigol,
- gweithgareddau a gynhelir y tu allan i oriau'r ysgol yn ôl amodau'r Ddeddf,
- mewn achosion lle achosir difrod i unrhyw ran o adeiladau'r ysgol yn dilyn ymddygiad disgyblion,
- pan fydd disgybl yn colli neu'n difrodi llyfr, cyfarpar neu eiddo sy'n perthyn i'r ysgol, aelod o staff neu ddisgybl arall.

# CYNGOR YSGOL

Yn **Ysgol Bro Llifon** bydd gan ddosbarthiadau blynyddoedd 2-6 Gyngor Dosbarth ac ar ddechrau pob blwyddyn ysgol cynhelir pleidlais ble mae pob Cyngor Dosbarth yn ethol dau i'w cynrychioli ar y Cyngor Ysgol.

Mae'r Cynghorau Dosbarth ac Ysgol yn rhoi cyfle i'r disgyblion fynegi barn a chydweithio mewn partneriaeth gyda Staff a Llywodraethwyr a'r gymuned i wella a datblygu'r ysgol er llês pawb.

# YSGOL ECO AC YSGOL IACH

Mae'r ysgol yn perthyn i gynlluniau Ysgolion Iach ac Ysgolion Eco. Rhydd hyn gyfleoedd i'r disgyblion sylweddoli pwysigrwydd cadw'n iach a ffitrwydd yn ogystal â materion yn ymwneud â chadwraeth, ail-gylchu ac arbed ynni.

# CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON

Mae'r Gymdeithas yn chwarae rôl allweddol yn natblygad yr ysgol ac yn ein galluogi i brynu adnoddau a hynny gan eu bod yn trefnu amryw o weithgareddau a nosweithiau cymdeithasol i godi arian e.e. noson bingo, Ffair Haf a disgo.

# Y DREFN GWYNO

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu polisi ynglŷn â'r drefn i'w dilyn pan dderbynir cwynion yn gysylltiedig â'r ysgol. Ym mhob achos dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth yn y lle cyntaf, neu gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr os yw'r gŵyn am y Pennaeth.

Pwysleisir, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol. Os nad ydych yn fodlon yn dilyn trafodaeth â'r Pennaeth a chyfnod rhesymol i ddelio â'ranghydfod, yna cynghorir chwi i gysylltu â Chadeirydd y Corff Llywodraethol.

## POLISIAU

Mae'r Llywodraethwyr yn adolygu polisiau yr Ysgol fel bo angen mewn cyfarfodydd tymhorol. Anodd yw crynhoi cynnwys polisiau'r ysgol ar gyfer y llawlyfr. Serch hynny rydym wedi cynnwys manylion pwysig yma ond gellir cael mynediad llawn at unrhyw bolisi Ysgol drwy gysylltu gyda'r Pennaeth.

# CANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT

Fel rhan o'r gyfundrefn amddiffyn plant, mae gan athrawon a staff ategol yr ysgol hon ddyletswydd i adnabod arwyddion o gam-driniaeth neu esgeleustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y personau cyfrifol yn yr ysgol neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth.

Mae **Ysgol Bro Llifon** yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae'n ei wneud i amddiffyn plant.

'camu 'mlaen gyda'n gilydd'
2025-2026

# PRYDERU AM BLENTYN

Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant yn **Ysgol Bro Llifon** yw - **Swyn Maelor**
Cydgysylltydd Amddiffyn Plant o blith uwch dîm rheoli'r ysgol yw - **Mr Einion Evans**
Aelod o'r Llywodraethwyr sy'n gyfrifol Person Cyfrifol Amddiffyn Plant -
**Mrs Sara Edwards**
Person Cyswllt yr Awdurdod yw - **Bethan Helen Jones**
neu drwy'r Tîm Cyfeiriadau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol:
**01758704455** *(9:00-17:00, Llun-Gwener)*
Ffôn tu allan i oriau: **01248 353551** *(unrhyw amser arall ac ar Wŷl y Banc)*
E-bost: **cyfeiriadauplant@gwynedd.gov.uk**

Dylid cysylltu gyda'r person cyswllt Llywodraethwyr / yn yr awdurdod os oes honiadau sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant yn gysylltiedig â'r pennaeth.
Mae pob aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglyn ag esgeileustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Threfn Diogelu Plant y Sir, i sôn am y mater gyda gyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

Gall cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chydweithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn trafodaethau, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr Ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â phrotocol y sir.
Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod y materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau. Y Pennaeth yw'r Cyd-Gysylltydd Diogelu Plant.

## PLANT MEWN GOFAL
Cefnogir a hyrwyddir cyflawniad plant sy'n derbyn gofal mewn addysg yn unol â pholisiau'r ysgol.

Y person dynodedig yw'r Pennaeth **Mrs Swyn Maelor 01286 831033**

## DATGANIAD AR YSMYGU
Mae'r ysgol yn adeilad di-fwg. Ni chaniateir i neb ysmygu yn yr adeilad nac ar dir yr ysgol ar unrhyw adeg na thra'n gofalu am blant y tu allan i'r ysgol.

## CWN AR DIR YR YSGOL
Ni chaniateir i neb ddod â chŵn *(ac eithro cwn tywys)* ar dir yr ysgol wrth nôl a danfon plant nac i unrhyw weithgareddau a drefnir gan yr ysgol.

# GWYLIAU YSGOL 2025-2026

## TYMOR:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2025 | **1 Medi 2025** | **-** | **19 Rhagfyr 2025** |
| Gwanwyn 2026 | **5 Ionawr 2026** | **-** | **27 Mawrth 2026** |
| Haf 2026 | **13 Ebrill 2026** | **-** | **20 Gorffennaf 2026** |

Bydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mercher, 3 Medi, 2025.

Bydd 6 Diwrnod Hyfforddiant mewn Swydd *(HMS)* yn y flwyddyn academaidd 2025/26

Diwrnod 1 - Medi 1af 2025

Diwrnod 2 - Medi 2ail 2025

Diwrnod 3 - 6 i'w bennu gan ysgolion

## GWYLIAU:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27 Hydref | - | 31 Hydref 2025 | (Hanner-Tymor) |
| 22 Rhagfyr 2025 | - | 2 Ionawr 2026 | (Gwyliau'r Nadolig) |
| 16 Chwefror | - | 20 Chwefror 2026 | (Hanner-Tymor) |
| 30 Mawrth | - | 10 Ebrill 2026 | (Gwyliau'r Pasg) |
| 4 Mai | | | (Calan Mai) |
| 25 Mai | - | 29 Mai 2026 | (Hanner-Tymor) |
| 21 Gorffennaf | - | 31 Awst 2025 | (Gwyliau'r Haf) |

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

| | |
|---|---|
| MEDI 2025 | 22 |
| HYDREF 2025 | 18 |
| TACHWEDD 2025 | 20 |
| RHAGFYR 2025 | 15 |
| IONAWR 2026 | 20 |
| CHWEFROR 2026 | 15 |
| MAWRTH 2026 | 20 |
| EBRILL 2026 | 14 |
| MAI 2026 | 15 |
| MEHEFIN 2026 | 22 |
| GORFFENNAF 2026 | 14 |

'camu 'mlaen gyda'n gilydd'

2025-2026

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

***(Sut ydym yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion)***

**Mae'r categorïau gwybodaeth am ddisgyblion yr ydym yn eu casglu, eu dal a'u rhannu yn cynnwys:**

- Gwybodaeth bersonol (megis enw, rhif unigryw disgybl a chyfeiriad)
- Nodweddion (megis ethnigrwydd, iaith, cenedligrwydd, gwlad enedigol a chymhwysedd pryd ysgol am ddim)
- Gwybodaeth am bresenoldeb (megis nifer y sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau a rhesymau dros absenoldeb)
- Gwybodaeth am asesiadau
- Gwybodaeth feddygol berthnasol
- Gwybodaeth am Anghenion Addysgol Arbennig
- Gwybodaeth am waharddiadau/ymddygiad
- Gwybodaeth bersonol am rieni'r disgybl a/neu berthnasau eraill (megis enw, manylion cyswllt, perthynas â'r plentyn)

**Pam yr ydym yn casglu a defnyddio'r wybodaeth hon**

Rydym yn defnyddio data disgybl:

- i gefnogi addysg y disgybl
- i fonitro ac adrodd ar gynnydd y disgybl
- i ddarparu gofal bugeiliol priodol
- i asesu ansawdd ein gwasanaethau
- i gydymffurfio â'r gyfraith ynglŷn â rhannu data
- i rannu data ar gyfer archwiliadau statudol a dibenion archwilio

**Y sail gyfreithlon pam yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth hon**

Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion, staff a llywodraethwyr dan

- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgybl) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 19
- Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Addysg (Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion) (Cymru) 2011
- Deddf Cyflogau a Thelerau Gwaith Athrawon 1991
- Cytundebau cyfunol Cenedlaethol Rhwng Cyngor Awdurdod Addysg Lleol ac Undebau Athrawon Cydnabyddedig
- Cytundebau Cyfunol Lleol Rhwng Awdurdod Addysg Gwynedd ac Undebau a Gydnabyddir gan yr Awdurdod ar gyfer trafodaethau ar ran Athrawon.
- Deddf Diogelu Data 1998
- Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol A'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Ddeddf Iechyd a Diogelwch Wrth Waith ayb1974 (Health and Safety at Work, etc. Act, 1974)
- Deddf Cydraddoldeb / Equality Act 2010
- Gorchymyn Rheoleiddio (Diogelwch Tan)2005/ Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 *(ffurflenni PEEPS yn cael eu cwblhau ac mae rhain yn cynnwys manylion unrhyw anableddau sydd gan blentyn/staff)*
- Erthygl 6(c) ac (e) ac Erthygl 9 (g) (GDPR)
- Gallwn hefyd ddefnyddio caniatâd ar adegau (e.e. *ffotograffau)*

'camu 'mlaen gyda'n gilydd'

2025 - 2026

**Casglu gwybodaeth am ddisgyblion**
Er bod y mwyafrif o wybodaeth am ddisgybl yr ydych yn ei darparu i ni yn orfodol, darperir ychydig ohoni i ni ar sail wirfoddol.

Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, byddwn yn eich hysbysu p'un a fydd yn ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth benodol i ni am ddisgybl neu os oes gennych ddewis yn hyn.

Os darperir gwybodaeth i ni ar sail wirfoddol, byddwn yn gofyn i chi roi caniatâd penodol ac yn rhoi'r opsiwn i chi dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

**Cadw data am ddisgyblion**
Rydym yn cadw data am ddisgyblion am gyfnodau amrywiol o amser yn dibynnu beth yw'r wybodaeth. Mae cyfnodau cadw wedi'i gynnwys ym mholisi diogelu data yr ysgol.

**Gyda phwy yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion**
Rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn rheolaidd gyda:

- ysgolion a fynychwyd gan y disgyblion ar ôl ein gadael
- ein hawdurdod addysg lleol - Cyngor Gwynedd - Gwasanaethau - Cymdeithasol, Hamdden, Cludiant, Cyllid, Ieuenctid.

Asiantaethau a gomisiynir gennym i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan :

- Llywodraeth Cynulliad Cymru (drwy HWB)
- Colegau Addysg Bellach
- Prifysgol Bangor, a sefydliadau eraill addysg Uwch yn Nghymru a Prydain fawr a phrifysgolion sydd yn rhan o rhaglen SEREN Llywodraeth Cymru
- Cwmni Cynnal
- Heddlu a Thîm Troseddu'r Ifanc
- Gwasanaethau Iechyd
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Urdd Gobaith Cymru
- Antur Waunfawr (gwaredu deunyddiau cyfrinachol)

Cwmnïau Perthnasol sy'n hybu gweinyddiaeth a phrofiadau addysg disgylbion

- Urdd Gobaith Cymru
- CAPITA - SIMS
- PIXEL
- School Gateway
- FFTrust
- INCERTS
- Text to parents
- EVOLVE

**Pam yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion**
Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd, oni bai bod y gyfraith a'n polisïau yn caniatáu i ni wneud hynny.

Rydym yn rhannu data am ddisgyblion gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar sail statudol. Mae rhannu data yn y modd hwn yn tanategu cyllid yr ysgol a pholisi a monitro cyrhaeddiad addysgol.

**Ysgolion a gynhelir:**
Mae'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth am ein disgyblion gyda'n hawdurdod lleol (ALl) Cyngor Gwynedd a Llywodraeth y Cynulliad dan: Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgybl) (Cymru) 2011 15

**Gofynion casglu data:**
Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgybl) (Cymru) 2011
Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011

**Gofyn am fynediad at eich data personol:**
Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan rieni a disgyblion yr hawl i ofyn am fynediad at y wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanynt. Er mwyn gwneud cais am eich gwybodaeth bersonol, neu ofyn am fynediad at gofnod addysgol eich plentyn, cysylltwch â
**pennaeth@brollifon.ysgoliongwynedd.cymru / Swyddog Diogelu Data**

**Swyddog Diogelu Data Ysgolion**
Cyngor Gwynedd
Stryd y Castell
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Mae gennych hefyd yr hawl i:**
- wrthwynebu i ddata personol gael ei brosesu sy'n debygol o achosi, neu sy'n achosi, niwed neu ofid
- atal unrhyw beth rhag cael ei brosesu er dibenion marchnata uniongyrchol
- gwrthwynebu i benderfyniadau gael eu gwneud gan ddulliau awtomataidd
- cywiro, rhwystro, dileu neu ddinistrio data personol anghywir, mewn amgylchiadau penodol; a
- hawlio iawndal am y niwed a achoswyd o ganlyniad i dorri rheoliadau Diogelu Data

Os oes gennych bryder ynglŷn â'r modd yr ydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, gofynnwn i chi nodi eich pryder gyda ni i ddechrau. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy **https://ico.org.uk/concerns/**

**Cysylltu:**
Os hoffech drafod unrhyw beth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â:
**Swyn Maelor, Ysgol Bro Llifon**
**pennaeth@brollifon.ysgoliongwynedd.cymru / Swyddog Diogelu Data**

**Swyddog Diogelu Data Ysgolion**
Cyngor Gwynedd
Stryd y Castell
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH